22 Gorffennaf 2020

Mae cwmni Alun Griffiths (Contractwyr) Cyf wedi'i benodi gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (Cyngor Gwynedd) fel y Prif Gontractwr i ymgymryd â gwaith ar Gynllun Lliniaru Llifogydd Rhostryfan.

Sylwch fod y gwaith wedi dechrau yng nghanol y pentref ar ddydd Sadwrn 18 Gorffennaf a bydd yn parhau am gyfnod o 15 wythnos, ond bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i gwblhau'r gwaith yn gynt.

Yn ystod yr amser hwn bydd y ffordd sy'n arwain trwy bentref Rhostryfan, o'r A487 Ffrwd Cae Du tuag at Rhosgadfan, ar gau i'r holl draffig yng nghanol y pentref gyda mynediad yn cael ei gynnal bob amser i eiddo ym Mro Wyled, Bro Gilbert, Cae'r Eglwys a'r ardal gyfagos.

Yn anffodus mae wedi dod yn amlwg ar unwaith y bydd angen newid y trefniadau cau ffordd hyn, o dan rybudd cau ffordd mewn argyfwng, ar ôl darganfod carthffos fudr ansiartredig wrth y gyffordd sy'n arwain o gyfeiriad Ffrwd Cae Du i ardal Bro Wyled y mae'n rhaid ei dargyfeirio cyn y gellir gwneud gwaith pellach.

O ganlyniad, o fore Llun 27 Gorffennaf am oddeutu pythefnos, bydd mynediad yn ôl ac ymlaen i'r A487 trwy bentref Rhos Isaf.

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r newid hwn neu'r gwaith arfaethedig yn Rhostryfan, mae croeso i chi gysylltu â mi ar y manylion cyswllt isod neu trwy ein gwefan Gymunedol: https://community.alungriffiths.co.uk/rhostryfan-flood-alleviation-scheme/

Yn gywir

Mandy Evans

Mandy Evans
Swyddog Cyswllt Cymunedol
Ar gyfer ac ar ran Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd

03300412185
mandy.evans@alungriffiths.co.uk